Atodiad 2

# ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB UNEDAU TELEDU CYLCH CYFYNG

## 1) AWDUR (ON) YR ASESIAD

Gwyn Morris Jones, Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol

## 2) DYDDIAD DECHRAU'R ASESIAD

6ed Gorffennaf 2015.

## 3) FERSIWN A/NEU DDYDDIAD GORFFEN YR ASESIAD

Fersiwn 3, 25 Ionawr, 2018.

## 4) PWRPAS YR UNED A MANYLION Y CYNNIG

Mae'r Uned yn darparu gwasanaeth Teledu Cylch Cyfyng mewn ardaloedd cyhoeddus, stadau tai ayyb.

Yn dilyn Her Gwynedd, cwtogwyd ar y gyllideb ar gyfer y gwasanaeth o £90k. Yn ychwanegol mae'r offer a ddefnyddir i fonitro a recordio angen ei foderneiddio e.e. mae'r system analog wedi cyrraedd diwedd ei oes weithredol ac mae angen camerau a chaledwedd newydd.

Mae 3 opsiwn wedi ei adnabod ar gyfer dyfodol y gwasanaeth sef:

Opsiwn 1 - Trefn un gofalwr (single manned).
Opsiwn 2 - Trefn heb ofalwr (unmanned), gyda'r opsiwn i'r Heddlu cael mynediad i'r system (remote access).
Opsiwn 3 - Terfynu'r Gwasanaeth.

## 5) CYFRANOGIAD AC YMGYNGHORIAD

Mae'r Adran wedi ymgynghori gyda'r Heddlu fel y rhanddeiliwr sydd yn cael y budd mwyaf o'r gwasanaeth.

O dan ymgynghoriad Her Gwynedd, roedd y grwpiau pobl hyn, pobl ifanc anabl a phobl anabl yn teimlo fod teledu cylch cyfyng yn bwysig iawn oherwydd diogelwch. Roeddynt yn poeni am eu diogelwch personol, ac yn ei weld yn arf defnyddiol ar gyfer atal a datrys troseddau fel dwyn oddi ar berson ac o siopau.

Mae'r Gwasanaeth wedi cychwyn ymgynghori gyda'r staff a'r undebau perthnasol ar yr opsiynau.

Bwriedir cynnal ymgynghoriad gyda'r partneriaid eraill perthnasol yn dilyn penderfyniad pa opsiwn i'w fabwysiadu.

## 6) TYSTIOLAETH SYDD AR GAEL

Yn dilyn ymarferiad Her Gwynedd cwtogwyd ar y gyllideb ar gyfer y gwasanaeth o £90k a golygwyd lleihad o 3 swydd. Bu ymgais i gadw at y ddarpariaeth 24 awr, 7 diwrnod yr wythnos, ond eleni ar adegau mae'r gwasanaeth methu cyflawni'r ddarpariaeth 24/7 oherwydd penderfyniad Cartrefi Cymunedol Gwynedd i beidio cyfrannu £35k yn flynyddol i'r Gwasanaeth ar gyfer monitro stadau tai Maesgeirchen a Maes Barcer.

Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei wneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac i atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd. Mae 7 nod llesiant, ac mae yna ddau opsiwn o ran dyfodol y gwasanaeth yn cyfarch y 2 nod buasai'r gwasanaeth yn cael ei gategoreiddio o dan sef Cymru o Gymunedau Cydlynys a Cymru sy'n fwy cyfartal.

Mae angen i gyrff cyhoeddus hefyd wneud yn siŵr wrth wneud penderfyniadau, eu bod yn cymryd i ystyriaeth yr effaith y gallent eu gael ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol. Mae pum peth y mae angen i gyrff cyhoeddus eu hystyried er mwyn dangos eu bod wedi rhoi 'egwyddor datblygu cynaliadwy' ar waith:-

**Tymor Hir** - mae opsiwn 2 wedi ei gynnig ar gyfer adnewyddu'r system ar gyfer y dyfodol er budd y gwasanaeth i'r dyfodol.

**Atal** - Byddai cael staff yn monitro 24/7 yn gallu mewn theori atal mwy o droseddau, ond gellid ddadlau bod opsiwn 2 yn parhau i atal troseddau'r dyfodol drwy cael safon gwell o dystiolaeth gyda system dechnoleg newydd a bod yr heddlu yn gallu cysylltu a'r system ar y pryd pan mae digwyddiad.

**Integreiddio** - Mae opsiyn 2 yn caniatáu mynediad 'remote access' i'r system gan yr Heddlu.

**Cydweithio** - gyda'r Heddlu a phartneriaid eraill.

**Cynnwys** - mae'r Gwasanaeth yn ddibynnol ar gyfraniadau gan ei bartneriaid.

## 7) PERTHNASEDD AC EFFAITH

### 7a)

| **Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb** | **Perthnasedd** A ydi'r toriad yn cael effaith ar y dyletswyddau isod? | **Yr effaith wirioneddol neu debygol** |
|---|---|---|
| **Cael gwared â chamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Nac ydi | |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Ydi | Opsiwn 1 - Dim effaith gwahaniaethol.<br><br>Opsiwn 2 - Dim effaith gwahaniaethol ar hyrwyddo cyfleoedd cyfartal.<br><br>Opsiwn 3 - Gallai ofn mentro allan arwain at leihau cyfleoedd ar gyfer rhai carfannau e.e. merched, pobl trawsrywiol, i fynychu gwaith gyda'r nos neu gymdeithasu. |
| **Meithrin perthnasau da** | Nac ydi | Opsiwn 1 - Dim effaith gwahaniaethol .<br><br>Opsiwn 2 - Dim effaith gwahaniaethol ar feithrin perthnasau da.<br><br>Opsiwn 3 - mae posibiliad y bydd cynnydd mewn troseddau yn tanseilio'r dyletswydd i feithrin perthnasau da. |

Atodiad 2

**7b)**

| **Nodweddion** | **Perthnasedd**<br>A ydi'r toriad yn cael effaith ar y nodweddion isod? | **Yr  effaith wirioneddol neu debygol** |
|---|---|---|
| **Hil** | Ydi | Opsiwn 1 - dim effaith gwahaniaethol.<br><br>Opsiwn 2 - dim effaith gwahaniaethol o ran cydraddoldeb yn yr ystyr bod y gwasanaeth yn parhau i recordio 24/7, ond heb y gallu i fod yn ymatebol i ddigwyddiadau, heblaw bod yr Heddlu yn cysylltu gyda'r system ar y pryd.<br><br>Opsiwn 3 - effaith tebygol – mae'r Heddlu yn amcangyfrif bod y rhan fwyaf o droseddau hiliol casineb ddim yn cael ei adrodd oherwydd bod y dioddefwr yn ofnus neu mewn embaras. |
| **Anabledd** | Ydi | Opsiwn 1 - dim effaith gwahaniaethol.<br><br>Opsiwn 2 - dim effaith gwahaniaethol o ran cydraddoldeb yn yr ystyr bod y gwasanaeth yn parhau i recordio 24/7, ond heb y gallu i fod yn ymatebol i ddigwyddiadau, heblaw bod yr Heddlu yn cysylltu gyda'r system ar y pryd.<br><br>Opsiwn 3 - effaith debygol - y gall pobl gyda anableddau deimlo yn fwy bregus mewn trefi os ydynt yn ymwybodol nad oes yna Wasanaeth TCC. |
| **Rhyw** | Ydi | Opsiwn 1 - dim effaith gwahaniaethol.<br><br>Opsiwn 2 - dim effaith gwahaniaethol o ran cydraddoldeb yn yr ystyr bod y gwasanaeth yn parhau i recordio 24/7, ond heb y gallu i fod yn ymatebol i ddigwyddiadau, heblaw bod yr Heddlu yn cysylltu gyda'r system ar y pryd.<br><br>Opsiwn 3 - effaith negyddol.  Gallai rhai merched deimlo'n llai hyderus I fynd allan yn y nos.<br><br>Dynion ifanc yw'r rhai fwyaf tebygol o brofi trais yn eu herbyn a bydd llai o dystiolaeth pe byddai trosedd yn eu herbyn. |

| | | |
|---|---|---|
| **Ailbennu rhywedd** | Ydi | Opsiwn 1 - dim effaith gwahaniaethol.<br><br>Opsiwn 2 - dim effaith gwahaniaethol o ran cydraddoldeb yn yr ystyr bod y gwasanaeth yn parhau i recordio 24/7, ond heb y gallu i fod yn ymatebol i ddigwyddiadau, heblaw bod yr Heddlu yn cysylltu gyda'r system ar y pryd.<br><br>Opsiwn 3 - effaith negyddol. Llai o effaith ataliol rhag trosedd casineb a llai o dystiolaeth os yw'r drosedd yn digwydd. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Ydi | Opsiwn 1 - dim effaith gwahaniaethol.<br><br>Opsiwn 2 - dim effaith gwahaniaethol o ran cydraddoldeb yn yr ystyr bod y gwasanaeth yn parhau i recordio 24/7, ond heb y gallu i fod yn ymatebol i ddigwyddiadau, heblaw bod yr Heddlu yn cysylltu gyda'r system ar y pryd.<br><br>Opsiwn 3 - effaith negyddol Llai o effaith ataliol rhag trosedd casineb a llai o dystiolaeth os yw'r drosedd yn digwydd. |
| **Crefydd neu gred** | Ydi | Opsiwn 1 - dim effaith gwahaniaethol.<br><br>Opsiwn 2 - dim effaith gwahaniaethol o ran cydraddoldeb yn yr ystyr bod y gwasanaeth yn parhau i recordio 24/7, ond heb y gallu i fod yn ymatebol i ddigwyddiadau, heblaw bod yr Heddlu yn cysylltu gyda'r system ar y pryd.<br><br>Opsiwn 3 - effaith negyddol Llai o effaith ataliol rhag trosedd casineb a llai o dystiolaeth os yw'r drosedd yn digwydd. |
| **Yr iaith Gymraeg** | Nac ydi | Dim effaith gwahaniaethol. |
| **Oedran** | Ydi | Opsiwn 1 - dim effaith gwahaniaethol.<br><br>Opsiwn 2 - dim effaith gwahaniaethol o ran cydraddoldeb yn yr ystyr bod y gwasanaeth yn parhau i recordio 24/7, ond heb y gallu i fod yn ymatebol i ddigwyddiadau, heblaw bod yr Heddlu yn cysylltu gyda'r system ar y pryd.<br><br>Opsiwn 3 - effaith tebygol – mae pobl hyn ac oedolion bregus yn teimlo yn llai saff tu allan gyda'r nos a maent yn adrodd bod ei bywydau yn cael eu heffeithio oherwydd eu bod yn ofnus o droseddau. Mae unrhyw leihad yn y capasiti i atal |

| | | |
|---|---|---|
| | | troseddu a chamymddwyn cymdeithasol yn gallu cael effaith negyddol ar ganfyddiad y cyhoedd o ran ofn troseddu. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Nac Ydi | Dim effaith gwahaniaethol. |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Nad ydi | Dim effaith gwahaniaethol. |

## 8) MYND I'R AFAEL A'R EFFAITH

| | |
|---|---|
| a) | **Nodwch unrhyw effaith posib o safbwynt cydraddoldeb**<br><br>Y gall unrhyw newid i'r Gwasanaeth TCC cael effaith ar y gymuned yn ei gyfanrwydd wrth gynyddu'r teimlad o ofni a'r gallu i atal, canfod a lleihau troseddu a chamymddwyn cymdeithasol.<br><br>O ran yr opsiynau dan ystyriaeth ni fydd yna effaith o safbwynt cydraddoldeb gydag Opsiwn 1 sef parhau gyda'r ddarpariaeth o monitro gyda staff 24/7.<br><br>O ran Opsiwn 2 – o safbwynt cydraddoldeb nid oes effaith gwahaniaethol o ran nodweddion gwarchodedig, mae'r gwasanaeth yn parhau ac yn recordio 24/7 ond heb y gallu i fod yn ymatebol i ddigwyddiadau heblaw fod yr Heddlu yn cysylltu gyda'r system ar y pryd.<br><br>Yn olaf mae Opsiwn 3, sef terfynu'r gwasanaeth, o safbwynt cydraddoldeb yn mynd i gael effaith anghymesur negyddol ar grwpiau bregus yn y gymuned - pobl ifanc, pobl anabl, grwpiau lleiafrif ethnig ayyb, hynny drwy gynyddu'r teimlad o ofni, yn enwedig troseddau casineb ac ar ganfyddiad y cyhoedd o ran hyder mewn diogelwch cymunedol. |
| b) | **Pa gamau gellir eu cymryd i leihau neu wella'r effeithiau yma?**<br><br>Mae'r Adran yn argymell Opsiwn 2, sef Trefn Heb Ofalwr, sydd yn golygu bod y gwasanaeth yn parhau ond heb fod yn ymatebol i digwyddiadau, heblaw pan fydd yr heddlu yn cysylltu gyda'r system ar y pryd. Mae'r opsiwn yma yn ddibynol ar dderbyn buddsoddiad ariannol yn y gwasanaeth. |
| c) | **A oes angen ail-ystyried y cynllun?**<br><br>Na, mae'r rhesymau a nodwyd uchod o ran y tystiolaeth sydd ar gael, yn ein gorfodi i ystyried dyfodol y gwasanaeth. Yn ychwanegol mae'r offer ddefnyddir i fonitro a recordio angen ei foderneiddio e.e. mae'r system analog yn cyrraedd diwedd ei oes weithredol ac mae angen camerau a chaledwedd newydd. |